

Gwrychoedd uchel a choed niwsans

Briff Ymchwil

Awst 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6317**

E-bost: Katy.Orford@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: SeneddYmchwil.blog

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/ymchwil-y-senedd)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymchwil y Senedd

Gwrychoedd uchel a choed niwsans

Briff Ymchwil

Awst 2019

Awduron:

Holly Tipper a Katy Orford

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Holly Tipper gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r briff ymchwil hwn gael ei gwblhau.

Trosolwg o'r papur:

Gall gwrychoedd uchel a choed niwsans fod yn anghyfleustra ac yn destun pryder i gymydog. Gall anghytuno rhwng cymdogion arwain at wrthdaro a rhwystredigaeth barhaus. Yn aml, y partïon cyfrifol yw perchnogion neu feddianwyr tai cyfagos, ond gallant fod yn berchnogion busnes neu'n gynghorau.

Cyhoeddwyd y briff hwn i hysbysu'r Aelodau a'u hetholwyr o'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â choed niwsans a gwrychoedd uchel.



Cynnwys

1 Cyflwyniad.....	1
2 Gwrychoedd uchel	2
Deddfwriaeth.....	2
Plannu gwrych.....	2
Gwneud cwyn	3
Apelio yn erbyn penderfyniad.....	6
3 Coed niwsans	7
Deddfwriaeth.....	7
Niwed o'r gwreiddiau	8
Canghennau coed sy'n ymestyn drosodd	8
Gweithredu ar goeden niwsans.....	9
Cyfyngiadau ar waith.....	11

1 Cyflwyniad

Gall gwrychoedd uchel a choed niwsans fod yn anghyfleustra ac yn destun pryder i gymydog. Gall anghytuno rhwng cymdogion arwain at wrthdaro a rhwystredigaeth barhaus. Yn aml, y partion cyfrifol yw perchnogion neu feddianwyr tai cyfagos, ond gallant fod yn berchnogion busnes neu'n gynghorau.

Gall gwrychoedd uchel fod yn gyfrifol am rwystro golau ac amharu ar 'fwynhad rhesymol' eiddo cyfagos. Gall coed fod yn niwsans os ydyn nhw'n difrodi eiddo cymydog, er enghraifft bod eu gwreiddiau'n achosi ymsuddiant, neu os yw eu canghennau'n cau golau allan.

Ymdrinnir â'r materion hyn yn fanwl yn y briff hwn.

2 Gwrychoedd uchel

Os na ofelir am wrych a'i docio'n rheolaidd, gall rwystro golau rhag mynd i mewn i ardd neu eiddo. Mae **canllaw dros glawdd yr ardd** gan Lywodraeth y DU yn rhoi cyngor ymarferol ynghylch y camau i'w cymryd os yw gwrych cyfagos yn cael effaith negyddol ar eiddo neu ardd. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol ar gyfer achosion yng Nghymru. Mae'r canllawiau'n pwysleisio pwysigrwydd siarad â'r cymydog i geisio datrys y broblem cyn cysylltu â'r cyngor neu fynd ag achos i'r llys.

Deddfwriaeth

Fel rhan o **Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (fel y'i diwygiwyd) ('Deddf 2003')**, rhoddodd Llywodraeth y DU reolau newydd ar waith sy'n rhoi mwy o fesurau diogelu i gymdogion yr effeithir arnynt gan wrychoedd uchel sy'n creu cysgod. Mae Deddf 2003 yn diffinio gwrych uchel fel:

- Gwrych wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan linell o ddau neu fwy o blanhigyn bythwyrdd; a
- Gwrych sy'n codi i uchder o fwy na dau fetr uwchlaw lefel y ddaear.

Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i goed unigol, grwpiau o goed, coetiroedd na choed sy'n colli'u dail (coed sy'n colli eu dail yn dymhorol).

Mae **Rhan 8** o Ddeddf 2003 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ddelio â chwynion am wrychoedd uchel sy'n cael effaith andwyol ar fwynhad cymydog o'u heiddo.

Plannu gwrych

Wrth ystyried plannu gwrych newydd, mae canllaw dros glawdd yr ardd gan Lywodraeth y DU yn nodi:

You don't normally need permission to plant a hedge in your garden. And there are no laws that say how high you can grow your hedge.

But you are responsible for looking after any hedge on your property and for making sure it's not a nuisance to anyone else.

You can help prevent a hedge on your property from becoming a nuisance by trimming the hedge regularly, both its top and all sides.

Mae'r canllaw hefyd yn awgrymu y dylid cael cyngor gan sefydliadau fel y **Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol** cyn plannu gwrych.

Gwneud cwyn

O dan **Ran 8** o Ddeddf 2003 gall perchennog neu feddiannydd eiddo domestig wneud cwyn ar y sail bod uchder y gwrych sydd wedi'i leoli ar dir sy'n eiddo i berson arall neu'n cael ei feddiannu gan berson arall yn effeithio'n andwyol ar eu mwynhad rhesymol o'r eiddo. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ymdrin â difrod yn deillio o wreiddiau gwrychoedd nac yn delio â lled gwrychoedd (mater cyfraith gwlad yw lled gwrych).

Cyn siarad â pherchennog neu feddiannydd yr eiddo, mae canllaw dros glawdd yr ardd gan Lywodraeth y DU yn nodi ei bod yn bwysig bod yn barod:

Byddwch yn glir yn eich meddwl eich hun beth yw'r broblem. Er enghraifft, y gwrych:

- yn blocio golau i brif ystafelloedd eich cartref
- yn eich amddifadu o heulwen y gaeaf
- yn ymledu i'ch gardd ac yn effeithio ar dwf eich planhigion
- yn gwthio dros eich ffens
- â gwreiddiau'n niweidio'ch llwybr, dreif, garej neu gartref

Byddwch yn glir ynghylch sut mae'n effeithio arnoch chi. Er enghraifft:

- mae'n rhaid i chi gadw'r golau ymlaen yn hirach
- mae eich gardd mewn cysgod am ran helaeth o'r dydd
- bydd yn rhaid i chi dalu i newid eich ffens dim ond i'r gwrych ei ddifrodi eto
- rydych chi'n ofni y bydd rhywun yn baglu ar eich llwybr neu ddreif toredig
- bydd yn rhaid i chi dalu i drwsio eich llwybr, dreif, garej neu gartref

Byddwch yn glir ynghylch yr ateb rydych chi'n ei geisio. Er enghraifft:

- y maint yr hoffech i'r gwrych fod
- sut y dylid ei gadw i'r maint hwn

Mae'r canllawiau'n cynghori ei bod yn well siarad yn bwyllog wyneb yn wyneb, ond y dylai llythyr wedi'i eirio'n ofalus fod yn ddigonol os nad yw cymdogion ar delerau siarad. Os oes angen, gall cyfryngwr hwyluso cyfathrebu rhwng dau gymydog. Mae'r **Cyfeiriadur o Gyfryngwyr Sifil** yn cynnwys rhestr o ddarparwyr gwasanaeth cyfryngu sifil. Yn dilyn hyn, dylai cymdogion geisio negodi cytundeb y mae'r ddau ohonyn nhw'n fodlon ag ef.

Os bydd cyfryngu'n methu, gellir gwneud cwyn i'r awdurdod lleol ynghylch y tir y mae'r gwrych wedi'i leoli ynddo. Rhaid talu ffi gwyno hefyd. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn gosod ffioedd ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â gwrychoedd. Mae'r ffioedd am gyflwyno cwyn i awdurdod lleol yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r rheoliadau a nodir yn y ***Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004. Y ffi uchaf*** y gellir ei chodi yng Nghymru yw £320.

Yn ôl **Adran 68(4)** o Ddeddf 2003 sy'n cwmpasu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion:

- (2) If the authority consider-
- (a) that the complainant has not taken all reasonable steps to resolve the matters complained of without proceeding by way of such a complaint to the authority, or
 - (b) that the complaint is frivolous or vexatious,
- the authority may decide that the complaint should not be proceeded with.

Mae cyngor Llywodraeth y DU, '**High hedges: complaining to the council**', hefyd yn berthnasol i Gymru, ac mae'n egluro'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn i'r awdurdod lleol ymyrryd:

- A yw'r gwrych (neu'r rhan ohono sy'n achosi problemau) yn 'wrych uchel'?
- A yw'r gwrych:
 - yn tyfu ar dir sy'n eiddo i rywun arall neu'n cael ei feddiannu gan rywun arall?
 - yn cynnwys llinell o 2 neu fwy o goed neu lwyni?
 - yn blanhigion bythwyrdd neu led-fythwyrdd yn bennaf?
 - yn fwy na 2 fetr o daldra?
 - yn rhwystr i olau neu fynediad (hyd yn oed os oes bylchau)?
- A yw uchder y gwrych hwn yn amharu ar eich mwynhad rhesymol o gartref yr ydych chi'n berchen arno neu'n ei feddiannu a/neu ei ardd neu iard?
- Ai chi yw perchennog neu feddiannydd yr eiddo domestig hwn?

Wrth ymchwilio i gŵyn, caiff person sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol fynd i'r tir cyfagos er mwyn cael gwybodaeth ynghylch y gŵyn. Nid oes rhaid i'r awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r gwrych gael ei dorri i lawr i ddau fetr ac ni all fynnu bod gwrych yn cael ei waredu. Mae hefyd yn bosibl na fydd yr awdurdod lleol yn dymuno gweithredu.

Hysbysiadau adfer

O dan **Adran 68** o Ddeddf 2003, os yw'r awdurdod yn penderfynu y dylid cymryd camau, rhaid iddo, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol:

- (a) ddyroddi hysbysiad adfer o dan adran 69 yn gweithredu eu penderfyniad;
- (b) anfon copi o'r hysbysiad hwnnw at y personau a ganlyn, sef—
 - (i) pob achwynydd; a
 - (ii) pob perchennog a phob meddiannydd y tir cyfagos; a
- (c) hysbysu pob un o'r personau hynny o'r rhesymau dros eu penderfyniad.

Mae **Adran 69** o Ddeddf 2003 yn rhoi manylion am hysbysiadau adfer. Gall hysbysiadau adfer gynnwys gofynion ar gyfer cynnal a chadw'r gwrych neu leihau uchder y gwrych, ond ni all gynnwys ei symud, na lleihau ei uchder o dan ddau fetr.

Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gŵyn, rhaid iddo hysbysu'r person(au) priodol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol am unrhyw benderfyniad o'r fath ac am y rhesymau drosto.

Mae Deddf 2003 yn nodi bod yn rhaid i hysbysiadau adfer gynnwys:

- (a) bod cwyn wedi'i gwneud i'r awdurdod o dan y Rhan hon ynghylch y gwrych uchel a bennir yn yr hysbysiad sydd wedi'i leoli ar dir penodol;
- (b) bod yr awdurdod wedi penderfynu bod uchder y gwrych hwnnw'n effeithio'n andwyol ar fwynhad rhesymol yr achwynydd o'r eiddo domestig a bennir yn yr hysbysiad;
- (c) y camau cychwynnol y mae'n rhaid eu cymryd mewn perthynas â'r gwrych hwnnw cyn diwedd y cyfnod cydymffurfio;
- (d) rhaid cymryd unrhyw gamau ataliol y maent yn eu hystyried yn briodol mewn perthynas â'r gwrych ar adegau ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw tra bo'r gwrych yn aros ar y tir; a
- (e) canlyniadau o dan adrannau 75 (toseddau) a 77 (gweithredu gan awdurdod perthnasol) yn sgil methiant i gydymffurfio â'r hysbysiad.

Gorfodi hysbysiadau adfer

O dan Adran 75 o Ddeddf 2003, os na chymerir y camau sy'n ofynnol gan hysbysiad adfer o fewn y cyfnod cydymffurfio, gall person wynebu cael ei gollfarnu i dalu dirwy. Os ceir unigolyn yn euog o drosedd ac os yw'r methiant i gydymffurfio â'r hysbysiad adfer yn parhau, gall y llys orchymyn iddynt gymryd y camau a bennir yn y gorchymyn ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid â'r rhybudd.

Apelio yn erbyn penderfyniad

O dan **Adran 71** o Ddeddf 2003, gall achwynydd neu feddiannydd/perchennog y tir cyfagos apelio yn erbyn hysbysiad adfer mewn perthynas â gwrych uchel neu yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i beidio â gosod hysbysiad. **Mae Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004** yn nodi'r seiliau ar gyfer gwneud apêl. Gall y sail dros wneud hynny gynnwys, er enghraifft, perchennog y gwrych yn anghytuno bod angen hysbysiad, neu os nad yw'r achwynydd yn credu nad yw'r camau yn yr hysbysiad yn mynd yn ddigon pell. Gellir apelio:

- Yn erbyn cyhoeddi hysbysiad adfer;
- Yn erbyn tynnu hysbysiad adfer yn ôl, neu hepgor neu lacio ei ofynion (dim ond os nad yw'r awdurdod perthnasol wedi cyhoeddi hysbysiad adfer arall mewn perthynas â'r un gwrych uchel, neu os nad oedd y person sy'n apelio wedi cydsynio i dynnu'r hysbysiad yn ôl, hepgor neu lacio'r hysbysiad neu ei ofynion); a
- Gan achwynydd yn erbyn yr awdurdod i beidio â bwrw ymlaen â chwyn.

Rhaid apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio cyn pen 28 diwrnod ar ôl naill ai'r hysbysiad adfer neu benderfyniad yr awdurdod i beidio â chymryd unrhyw gamau. Nid oes ffi am apelio yn erbyn penderfyniad. Mae rhagor o wybodaeth am y broses o apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch gwrychoedd uchel i'w gweld yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru **'Apelio yn erbyn penderfyniad ar berthi uchel'**.

Os yw person yn anghytuno â phenderfyniad yr apêl, gallant herio'r penderfyniad ymhellach yn yr Uchel Lys os yw'n ystyried bod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi gwneud camgymeriad cyfreithiol.

3 Coed niwsans

Os yw coeden sydd wedi'i lleoli ar dir cymydog wedi achosi difrod i eiddo, yna gall perchennog y goeden fod yn atebol am y difrod o dan y gyfraith niwsans.

Deddfwriaeth

Tir preifat

Yn wahanol i wrychoedd, nid yw coed unigol wedi'u cynnwys yn *Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003*. Fodd bynnag, o dan gyfraith gwlad, perchennog coeden (h.y. perchennog y tir y mae'n tyfu arni) sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r goeden. Mae'n ddyletswydd ar y perchennog i wneud yr hyn sy'n rhesymol i leihau lefel y niwsans neu'r difrod i eiddo cymydog, os yw'n gwybod neu os dylai fod wedi gwybod bod risg.

Yn achos coed peryglus, mae meddiannydd yr adeilad yn gyfrifol am sicrhau nad yw cyflwr y tir (a'r coed arno) yn peri niwed i unrhyw ymwelydd ar y tir hwnnw, o dan **Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984 a Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957**. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylai meddiannydd y tir y mae'r goeden arno archwilio coed (neu gael rhywun i'w harchwilio) os oes cryn bosibilrwydd o niwed.

O dan **Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976**, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i weithredu mewn perthynas â choed sy'n cael eu hystyried yn beryglus. Gall awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau ar y tir, boed hynny drwy dorri'r goeden neu fel arall, fel y gwêl yn briodol at ddibenion gwneud y goeden yn ddiogel, a chaiff adennill cost a gyfyd yn rhesymol wrth wneud hynny.

Tir Awdurdod Lleol

Fel perchnogion preifat, mae dyletswydd gofal ar awdurdodau lleol i leihau'r risg o niwed i bobl ac eiddo yn deillio o goed sy'n eiddo i awdurdodau lleol. I wneud hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol archwilio a chynnal a chadw'r coed sy'n tyfu ar dir y maent yn berchen arno.

O dan ***Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974***, mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol ofalu am iechyd a diogelwch trydydd partïon. Dylai system effeithiol ar gyfer rheoli coed hefyd fodloni'r gofynion a nodir yn *Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999* a'r Cod Ymarfer Cymeradwy HSG 65 cysylltiedig. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid archwilio pob coeden, ond mae'n golygu bod coed mewn mannau cyhoeddus yr ymwelir â nhw'n aml neu goed â namau strwythurol yn debygol o fod angen eu harchwilio. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael ar **wefan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch**.

Niwed o'r gwreiddiau

Gall gwreiddiau coed achosi niwed uniongyrchol i sylfeini, draeniau, waliau a dreifiau. Gall gwreiddiau hefyd achosi difrod anuniongyrchol trwy ddadhydradu ac ailhydradu'r pridd, gan achosi i'r ddaear grebachu a chwyddo, yn enwedig os yw'n glai. Gall y crebachu a'r chwyddo hwn yn y pridd arwain at symud strwythurau ac ymsuddiant, gan achosi difrod a chraciau yn waliau eiddo.

Mae'n bosibl mai perchennog y goeden fyddai'n atebol, os gall yr achwynydd ddangos bod gwreiddiau ei goed wedi achosi difrod i'w eiddo. Os yw'r perchennog yn atebol, gall yr achwynydd ofyn am waharddeb (ateb cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i barti weithredu, neu ei wahardd rhag gweithredu, a gellir ceisio am y rhwymedi hwn yn lle iawndal ariannol) neu iawndal. Pe bai sawl peth wedi achosi'r difrod, ac mai gwreiddiau'r coed fyddai un ohonynt, gallai'r perchennog fod yn atebol am gyfran o gostau'r cymydog. Rhaid i'r difrod fod wedi bod yn rhesymol ragweladwy hefyd. Mae rhagweladwyedd yn elfen hanfodol wrth bennu atebolrwydd mewn achosion niwsans ac mae'n ymwneud â chymryd camau i ddileu risg.

Canghennau coed sy'n ymestyn drosodd

Gall canghennau sy'n ymestyn drosodd arwain at hawliadau gan berchennog yr eiddo cyfagos am niwsans neu esgeulustod os ydynt yn achosi difrod i strwythurau'r eiddo cyfagos hwnnw. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol ag ar gyfer gwreiddiau coed i benderfynu a oes dyletswydd ar berchennog coeden i weithredu ynglŷn â canghennau sy'n ymestyn drosodd er mwyn osgoi difrod i eiddo rhywun arall. Yn wahanol i wrychoedd uchel, nid oes gwahaniaeth rhwng coed bythwyrd a choed collddail yn y maes hwn.

Gweithredu ar goeden niwsans

Mae cyfraith gwlad yn caniatáu i gymydog i gael gwared ar niwsans. Ystyr cael gwared ar niwsans yng nghyd-destun coed niwsans yw hawl perchennog y tir cyfagos i docio'r goeden sy'n ymestyn dros y ffin rhwng ei eiddo a'r tir y mae'r goeden yn sefyll arno. Nid oes angen caniatâd perchennog y goeden ar berchennog yr eiddo cyfagos cyn arfer yr hawl i docio'r goeden. Mae'r hawl i docio yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau:

- Rhaid i'r weithred o docio beidio â bod i raddau mor ddifrifol nes ei fod yn gwneud y goeden yn ansefydlog neu'n achosi iddi farw (gall y cymydog sy'n cwyno fod yn atebol am gostau pe bai'r goeden yn cwmpo neu'n achosi difrod);
- Rhaid dychwelyd y canghennau wedi'u torri i berchennog y goeden. Mae unrhyw ganghennau neu ffrwythau sy'n cael eu torri oddi ar goeden cymydog yn dal i fod yn eiddo i'r cymydog hwnnw, felly dylid eu cynnig iddynt (nid dim ond eu gadael ar eu tir heb ganiatâd), er nad oes rheidrwydd arnynt i'w derbyn; a
- Os yw'r goeden yn ddarostyngedig i **Orchymyn Cadw Coed**, yna efallai y bydd angen caniatâd cyn tocio'r goeden (gweler yr adran 'Cyfyngiadau ar waith' i gael mwy o wybodaeth).

Nid yw'r uchod ond yn berthnasol i goed lle mae canghennau neu wreiddiau'n ymestyn dros neu i mewn i eiddo'r achwynydd ei hun. Gall hyn hefyd gynnwys problemau gyda lled gwrych, fel canghennau sy'n ymestyn drosodd.

Gellir mynd â'r mater ymhellach drwy'r llysoedd sifil, er bod y gyfraith ym maes niwsans/esgeulustod yn gymhleth. Hefyd, gellir defnyddio'r llys gweithdrefn hawliadau bychain i adennill costau gwaith tocio proffesiynol ar gyfer canghennau sy'n ymestyn drosodd.

Gall hawlydd ddwyn achos sifil yn erbyn diffynnydd ar gyfer un o'r rhwymediâu a ganlyn (neu'r ddau):

- Rhyddhad gwaharddol i docio niwsans parhaus a'i atal rhag digwydd eto; a
- Iawndal ar gyfer eu colled.

Gellid ceisio gwaharddeb i atal niwsans parhaus i eiddo a achosir gan ordyfiant canghennau coed. Gallai gwaharddeb atal niwed yn y dyfodol ynghyd ag unrhyw ddifrod o ordyfiant y goeden rhag digwydd eto. Gellid ceisio gwaharddeb i'w gwneud yn ofynnol i berchennog y goeden docio neu dorri'r goeden i lawr.

Os nad yw canghennau neu wreiddiau'r coed sy'n gordyfu wedi achosi difrod eto, efallai y gall fod yn bosibl ceisio rhyddhad gwaharddol i atal niwed rhag digwydd. Fodd bynnag, mewn achosion blaenorol mae'r llysoedd wedi dilyn dull gofalus yn y cyd-destun hwn, ac mae angen iddynt fod yn fodlon bod y risg o ddifrod yn un sydd ar fin digwydd a'i bod yn risg wirioneddol. Yn gyffredinol, yr iawndal sydd ar gael i'r hawlydd fydd cost resymol y gwaith sy'n ofynnol i atgyweirio'r eiddo i'w gyflwr cyn i'r difrod ddigwydd.

Rhaid rhoi rhybudd ac amser rhesymol i berchennog coeden ymateb. Ni fydd perchennog yn atebol am unrhyw ddifrod a achosir os nad yw wedi cael rhybudd o'r difrod.

Efallai y bydd perchennog yr eiddo cyfagos yn hapus i dalu am gael gwared ar ychydig o ganghennau neu wreiddiau sy'n ymestyn drosodd, ond os bydd y gwaith yn gofyn am gontractwr coed neu goedyddiaeth ddiwylliannol broffesiynol, bydd yn ddrytach, ac efallai y bydd y perchennog cyfagos yn disgwyl ad-daliad gan berchennog y goeden. Er bod hwn yn fater cymhleth, efallai y bydd yn bosibl i'r hawlydd adennill y costau am gael gwared ar y niwsans os yw wedi rhoi digon o rybudd i'r perchennog o'r broblem ac wedi rhoi amser i'w leihau'r broblem.

Gweithredu ynghylch coed peryglus

Yn achos coed peryglus, o dan **Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976**, gall tirfeddiannwr cyfagos gyflwyno cais ysgrifenedig i awdurdod lleol sicrhau bod coeden yn ddiogel. Ar ôl cynnal ymchwiliad, efallai y bydd yr awdurdod lleol am roi rhybudd i berchennog y goeden neu feddiannydd y tir i wneud y goeden yn ddiogel. Os na chydymffurfir â'r rhybudd, gall yr awdurdod lleol gyflawni'r gwaith ei hun a chodi ffi ar y perchennog/meddiannydd am y gwaith ac unrhyw gostau a ffioedd gweinyddol ychwanegol. Mae gan dirfeddiannwr/berchennog tir yr hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad i'r Llys Sirol.

Cyfyngiadau ar waith

Cyn cymryd unrhyw gamau ar goeden (neu goed), efallai y bydd amodau i'w hystyried. Er enghraifft, byddai angen ystyried a oes gan y goeden/coed Orchymyn Cadw Coed, a yw mewn Ardal Gadwraeth, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, safle Heneb Rhestredig Hynafol, neu a yw ym mhresenoldeb rhywogaethau gwarchoddedig Ewropeaidd sy'n cael eu gwarchod drwy'r **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017)**. Yn gyffredinol, fe'ch cynghorir i chwilio am nythod mewn coed cyn dechrau ar unrhyw waith, gan fod pob nyth adar, p'un a yw'n cael ei defnyddio neu'n cael ei hadeiladu, yn cael ei amddiffyn rhag aflonyddwch, difrod neu ddinistr o dan **Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)**. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd angen **Trwydded Cwmpo Coed**. Fodd bynnag, gallwch barhau i wneud cwyn bod coed gwarchoddedig yn niwsans.

Gorchmynion Cadw Coed

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwneud Gorchmynion Cadw Coed i amddiffyn coed penodol, grŵp o goed neu goetir er amwynder. Os yw coeden/coed yn destun Gorchymyn Cadw Coed, yna ni ellir cynnal 'gwaith angenrheidiol' nes bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi ei gydsyniad. Wrth ofyn am gydsyniad ei Awdurdod Cynllunio Lleol, rhaid i dirfeddiannwr nodi pa gamau y mae'r tirfeddiannwr yn dymuno eu cymryd ac ar gyfer pa goed. Mae'r gorchymyn yn gwahardd y gweithgareddau canlynol i'r coed penodedig heb gydsyniad ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol:

- Torri i lawr;
- Tocio;
- Torri;
- Dadwreiddio;
- Difrod bwriadol;
- Dinistr bwriadol; a
- Torri gwreiddiau.

Os rhoddir cydsyniad, gall fod yn ddarostyngedig i amodau y mae'n rhaid eu dilyn. Os bydd y tirfeddiannwr yn gwneud difrod i goeden mewn modd sy'n debygol o'i dinistrio, gallent gael dirwy o hyd at £20,000 pe bai'n cael ei gael yn euog yn y llys ynadon. Ceir rhagor o wybodaeth ar **wefan Woodland Trust**.

Eithriadau yn ymwneud â choed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed

Mae **canllawiau** Llywodraeth Cymru yn cynghori y bydd tirlfeddiannwr bob amser angen cydsyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud gwaith ar goeden a warchodir, oni bai ei fod yn:

- Torri coed i lawr yn unol ag un o gynlluniau grant Cyfoeth Naturiol Cymru, neu lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi trwydded cwympo coed;
- Torri coeden i lawr neu ei thocio:
 - ◆ os yw'n marw, yn farw, neu'n beryglus;
 - ◆ yn unol â rhwymedigaeth o dan Ddeddf Seneddol;
 - ◆ ar gais sefydliadau a bennir yn y gorchymyn;
 - ◆ sydd yn uniongyrchol yn y ffordd o waith datblygu sydd ar fin cychwyn y rhoddwyd caniatâd cynllunio manwl ar ei gyfer;
 - ◆ mewn perllan fasnachol, neu docio coed ffrwythau yn unol ag arfer garddwriaethol da; neu
 - ◆ i atal neu reoli niwsans cyfreithiol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru hefyd yn cynghori y dylai'r tirlfeddiannwr roi o leiaf bum diwrnod o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn torri coed gwarchoddedig sy'n marw, yn farw neu'n beryglus, ac eithrio mewn argyfwng. Mae hefyd yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol i dirfeddiannwr ymgynghori â meddyg coed i egluro'r hyn sy'n ofynnol cyn cysylltu â'i Awdurdod Cynllunio Lleol.